

Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023

Presennol: Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Wyn Evans (Is-gadeirydd), Marc Davies, Endaf Edwards, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes a Ceris Jones.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Hugh Hughes a Gareth Lloyd.

Aelodau Cabinet yn bresennol: Y Cynghorwyr Keith Henson ac Wyn Thomas.

Swyddogion yn bresennol: Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Partneriaeth a Pherfformiad; Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil ; Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredwr, CAVO; Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am-11.42am)

1 Ymddiheuriadau

- i. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad a Phobl a Threfniadaeth, Caryl Roberts a Chris James am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
- ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymadau eraill y Cyngor.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a Chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bryan Davies, cyflwynodd Hazel Lloyd-Lubran yr adroddiad ynghylch Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028 i ben ar 31 Ionawr 2023. Gwnaed newidiadau a gwelliannau gan gynnwys y rhai a awgrymwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023, ystyriwyd y newidiadau arfaethedig gan bob sefydliad sy'n aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda'r bwriad o

gymeradwyo'r Cynllun drwy eu trefniadau llywodraethu arferol cyn y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi cymeradwyaeth derfynol i gyhoeddi'r Cynllun ym mis Mai 2023.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Hazel Lloyd-Lubran, Naomi McDonagh a Diana Davies. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roeddent yn disgwyl fwy o ymateb i'r ymgynghoriad; fodd bynnag, cydnabuwyd mai un ffactor posib ar gyfer y nifer isel o ymatebion oedd bod pobl wedi blino ar ymgynghoriadau. Yn ogystal, gan fod gwaith ymgynghori gyda phartneriaid wedi'i wneud yn gynnar yn y broses, roedd llai o adborth oddi wrth y cyrff hyn gan eu bod nhw eisoes wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun.
- O ran y broses ymgynghori, cysylltwyd ag ystod o sefydliadau, cynhaliwyd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, cafodd y manylion eu cynnwys ar dudalen ymgynghoriadau'r Cyngor ar y we, a soniwyd am yr ymgynghoriad mewn nifer o gyfarfodydd gan gynnwys cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion. Cwblhawyd ymarfer ymgysylltu gyda 13 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd ar draws y sir ac ymgynghorwyd â grwpiau megis y Fforwm Anabledd. Roedd posteri a chopïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden / canolfannau llesiant. Roedd cyfrifoldeb ar bob partner o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod safbwyntiau pobl yn cael eu clywed. Wrth symud ymlaen, byddai trafod ac ymgysylltu'n barhaus â chymunedau'n fuddiol ynghyd â newid sut y caiff safbwyntiau a barn eu casglu.
- Er ei bod hi'n bwysig ystyried y 12% nad oedd yn cytuno mai'r 5 amcan llesiant oedd y blaenoriaethau cywir, roedd hi'n hyfryd nodi bod 88% yn cytuno. Roedd hi hefyd yn bwysig ystyried y niferoedd a oedd ynghlwm wrth hyn yn hytrach na'r canrannau gan fod y gyfradd ymateb yn isel. Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi gwneud sylwadau ynghylch cadernid yr Asesiad o Lesiant Lleol gan gynnwys y gwaith ymgysylltu a arweiniodd at ffurfio'r cynllun, ac felly roedd y swyddogion yn hyderus fod y blaenoriaethau'n gywir ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r partneriaid a'r cyhoedd.
- Codwyd pryderon am y ffaith fod Llywodraeth Cymru'n uchelgeisiol gyda'i chynlluniau, ond nid oedd unrhyw gyllid ar gael i awdurdodau lleol i gyflawni hyn. Byddai'r Cynllun Llesiant Lleol yn arwain at gydweithio pellach rhwng Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru a gobeithiwyd, drwy ganolbwyntio ar y blaenoriaethau, y byddai hyn yn cynorthwyo i gyflawni'r cynllun. Nododd y Cynghorydd Keith Henson (Aelod Cabinet) fod Llywodraeth Cymru'n mynd i'r Grŵp Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd ac yn cyfrannu at y trafodaethau ond cytunodd fod mwy o gydweithio'n bwysig.
- Roedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gâr yn gweithio'n annibynnol ond yn agos er mwyn sicrhau bod cysondeb rhwng yr hyn y mae pawb yn ei wneud. Efallai bod y blaenoriaethau'n amrywio yng Nghynllun Llesiant Lleol bob Bwrdd,

ond roedd y blaenoriaethau rhanbarthol a blaenoriaethau cyrff unigol yn cael eu hystyried yn y broses o ddatblygu'r cynllun.

- O ran monitro'r gwaith, caiff Adroddiad Blynyddol ei greu sy'n manylu ar berfformiad y Bwrdd, a chaiff ei anfon at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a derbynwyr statudol eraill bob blwyddyn.
- Roedd aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi bod yn gyson gyda 4 sefydliad statudol (yn unol â'r cyfarwyddyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a nifer o sefydliadau eraill a wahoddwyd i gymryd rhan. Ar hyn o bryd roedd cyfle i adolygu'r aelodaeth o ran y sefydliadau a wahoddir ac i sicrhau bod y bobl a'r sefydliadau cywir yn gwneud gwaith ar ran y Bwrdd. Pwysleisiwyd pa mor bwysig ydy cynnwys pobl a allai wneud gwahaniaeth pan fo'r trafodaethau yn fwy lleol.

Estynnodd y Cadeirydd ei dymuniadau gorau i Naomi McDonagh wrth iddi adael ei rôl gyda'r awdurdod a diolch iddi am ei gwaith caled dros y blynyddoedd.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i dderbyn Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig.

Cyflwynodd Hazel Lloyd-Lubran gofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023 i'r Pwyllgor. Cyfeiriwyd at y pwyntiau canlynol a drafodwyd yn y cyfarfod:

- Cafwyd trafodaeth helaeth ynghylch lefel yr ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 a chynigion ar gyfer y dyfodol.
- Cafwyd cyflwyniad am lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch lleoliad yr ysbyty newydd ar gyfer gofal dwys a gofal wedi'i gynllunio. Nodwyd y byddai grŵp rhanddeiliaid yn cael ei greu i drafod hygyrchedd a thrafnidiaeth i'r safle; fodd bynnag gobeithiwyd y gellid ehangu cwmpas y grŵp tu hwnt i'r ysbyty newydd yn unig. Yn ogystal, trafodwyd pwysigrwydd cael gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol.
- Diweddariadau ar Brosiectau Peilot y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Diweddariad ynghylch system data Gorwel a diddordeb Llywodraeth Cymru mewn cael adnodd tebyg yn genedlaethol.
- Agenda cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill.

Esboniodd y Cadeirydd fod gweithdy wedi cael ei gynnal gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac aelodau etholedig ynghylch lleoliad yr ysbyty newydd ar gyfer gofal brys a gofal wedi'i gynllunio.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i dderbyn cofnodion drafft cyfarfod BGC Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

4 Adroddiad ynglyn â Diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban

Yn absenoldeb y Cynghorydd Matthew Vaux, esboniodd Harry Dimmack mai'r tro diwethaf y cafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor ynghylch

newidiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban oedd ar 16 Mai 2018, ac yna cymeradwywyd y newidiadau gan y Cabinet ar 19 Mehefin 2018. Rhoddwyd trosolwg o'r newidiadau allweddol, a oedd wedi'u marcio yn Atodiad 1. Byddai'r cyfeiriad ar gyfer Archwilio Cymru'n cael ei newid cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Harry Dimmack. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Gan mai mân newidiadau yn unig oedd i'r polisi, roedd cyflwyno'r polisi i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn ddigonol.
- Pe bai person eisiau codi pryder yn allanol, roedd y manylion cyswllt perthnasol wedi'u nodi ar dudalen 8 y polisi.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban fel y'u dangosir yn Atodiad 1, yn amodol ar ddiweddaru'r manylion cyswllt ar gyfer Archwilio Cymru.

5 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

6 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft

Bu i Gadeirydd pob Pwyllgor (neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd), ddarparu gwybodaeth yn eu tro am Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgorau.

1. Pwyllgor Cydlyn

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am flaenraglen waith y Pwyllgor Cydlyn.

2. Cymunedau sy'n Dysgu

Nododd y Cadeirydd fod adborth ynghylch proses pennu'r gyllideb ar gyfer 23/24 a Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion wedi'u cyflwyno yn ystod cyfarfod y Cabinet ar 14 Chwefror 2023, wedi i'r materion gael eu hystyried gan y Pwyllgor. Rhoddwyd diweddariad ynghylch blaenraglen waith y Pwyllgor a nodwyd bod Aelodau wedi ymweld ag Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug ac Ysgol Bro Siôn Ciwlt ar 1 Chwefror 2023 fel rhan o'r ffrwd waith.

3. Cymunedau Ffyniannus

Esboniodd y Cadeirydd fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cyfarfod ar 30 Ionawr 2023 ac yna cynhaliwyd cyfarfod arbennig ar 21 Mawrth 2023 i drafod casglu gwastraff ymhellach gyda swyddogion. Rhoddwyd diweddariad ynghylch blaenraglen waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus. Gwahoddwyd Cyfoeth Naturiol Cymru i ddod i gyfarfod ym mis Mehefin i drafod Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol /

Llifogydd, ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn. Cytunwyd i wahodd Dŵr Cymru a Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Gwasanaeth – Polisi Cynllunio, i'r cyfarfod hefyd.

4. Adnoddau Corfforaethol

Esboniodd y Cadeirydd fod gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch Ffermydd y Cyngor yn parhau. O ran y rheolau ynghylch Parhau Perygl Nitradau (NVZs) ar gyfer y sector amaethyddol, eglurodd y Cadeirydd fod swyddogion wedi ymweld â'r ffermydd ac wedi cynnal asesiadau. Rhoddwyd diweddariad ynghylch y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2023. O gofio'r toriadau arfaethedig yn y gyllideb, anogodd y Cadeirydd bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i ystyried hyn wrth symud ymlaen ac i chwilio am feysydd lle gellid gwneud arbedion.

5. Cymunedau Iachach

Yn absenoldeb y Cadeirydd, rhoddodd y Cynghorydd Ceris Jones, yr Is-gadeirydd, ddiweddariad ynghylch blaenraglen waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach. Nododd y Cynghorydd Ceris Jones y byddai'n cadarnhau teitl yr adroddiad ynghylch archwilio safleoedd bwyd, gan fod y flaenraglen waith yn wahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 22 Mai 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____